Helpu i atal **canser gwddf y groth**

www.screeningservices.org

SCREENING SERVICES
GWASANAETHAU SGRINIO

NHS WALES GIG CYMRU

Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Mawrth 09. fersiwn 1.0

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth i chi a allai helpu i atal canser gwddf y groth. Gallwch chi ostwng y posibilrwydd o weld canser gwddf y groth yn datblygu trwy fynd yn rheolaidd i gael eich sgrinio.

"Mae menywod ar draws Cymru'n cael y prawf." Os ydych chi rhwng 20 a 64 oed, byddwn ni'n eich gwahodd chi i gael prawf taeniad bob tair blynedd.

Mawrth 09. fersiwn 1.0

Canser gwddf y groth yw'r ail ganser mwyaf cyffredin mewn menywod dan 35 oed, ond mae'n gallu effeithio ar fenywod o bob oed.

Ni (Sgrinio Serfigol Cymru) sy'n gyfrifol am raglen sgrinio serfigol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Yr hyn y dylech chi ei wybod

- Yr enw cyffredin ar sgrinio serfigol yw'r 'prawf taeniad'.
- **Nid** prawf am ganser yw'r prawf taeniad. Ei nod yw atal canser rhag datblygu, ond mae'n gallu canfod canser weithiau.
- Mae profion taeniad yn chwilio am newidiadau annormal yn y celloedd y mae firysau papiloma dynol (HPVs) yn bennaf yn eu hachosi.
- Mae'r HPVs sy'n achosi canser gwddf y groth yn cael eu trosglwyddo yn ystod rhyw.
- Mae HPVs yn gallu achosi newidiadau yng nghelloedd gwddf y groth a allai arwain at ganser.
- Gall merched 12-13 mlwydd oed gael brechiad i'w diogelu rhag dal rhai mathau o HPVs. Bydd merched hŷn sydd dan 18 oed yn cael y brechiad trwy raglen dal i fyny.

Ble mae gwddf y groth?



Gwddf eich croth (sydd hefyd yn cael ei galw'n wterws) yw ei rhan isaf. (Enw arall ar wddf eich croth yw 'serfics'). Mae gwddf eich croth yn cysylltu â phen uchaf eich gwain (fagina).

Canser gwddf y groth

Gallai celloedd annormal ar wddf eich croth ddatblygu'n ganser.

Gall canser gwddf y groth ledaenu i rannau eraill o'ch corff, yn cynnwys eich gwain a'ch coluddyn (*bowel*).

Rhai mathau o HPVs yw'r prif bethau sy'n achosi canser gwddf y groth. Os ydych chi'n ysmygu, gallai olygu bod mwy o risg o ddatblygu canser gwddf y groth.

Beth yw prawf taeniad?

Mae profion taeniad yn gwirio iechyd gwddf eich croth drwy gymryd sampl o'r celloedd. Mae'n brawf cyflym a syml ac ni ddylai fod yn boenus, ond mae rhai menywod yn teimlo'i fod yn anghyfforddus. Os yw'r prawf yn canfod celloedd annormal, efallai y bydd angen i chi gael triniaeth i atal canser gwddf y groth rhag datblygu.

Pam ddylwn i fynd i gael prawf taeniad?

Mae mynd i gael profion taeniad rheolaidd yn gallu atal tua 75% o achosion o ganser rhag datblygu yng ngwddf y groth ond, fel unrhyw brawf sgrinio, nid yw'n gwbl ddibynadwy.

Sut bydd y prawf yn cael ei wneud?

Byddwn ni'n eich gwahodd chi pan mae'n bryd i chi gael prawf taeniad. Y meddyg neu'r nyrs yn eich meddygfa leol neu glinig iechyd rhywiol fydd yn gwneud y prawf. Mae'r person sy'n gwneud y prawf yn rhoi teclyn o'r enw sbecwlwm yn eich gwain er mwyn gallu gweld gwddf eich croth. Bydd yn defnyddio brwsh bach i gymryd sampl o'r celloedd ac yn eu hanfon wedyn at labordy lle y bydd y staff yn edrych arnyn nhw dan ficrosgop.

Pwy ddylai gael prawf taeniad?

- Byddwn ni'n eich gwahodd chi i gael prawf taeniad bob tair blynedd os ydych chi rhwng 20 a 64 oed. Os ydych chi dros 64 oed, **dim ond** os nad ydych chi erioed wedi cael prawf taeniad o'r blaen y gallwch chi gael un.
- Nid yw o bwys a ydych chi'n forwyn (heb gael rhyw erioed) neu beidio neu a ydych chi mewn perthynas gyda rhywun o ryw wahanol neu o'r un rhyw. Dylech chi ddod i gael prawf taeniad ar ôl i ni eich gwahodd.

Y brechlyn HPV

Mae'r brechlyn HPV ar gael i ferched 12-13 oed trwy'r Rhaglen Imiwneiddio mewn Ysgolion. Am fwy o wybodaeth am y brechlyn, ewch i wefan y Gwasanaeth lechyd sy'n rhoi gwybodaeth am imiwneiddio (manylion ar dudalen 7).

Hyd yn oed os ydych chi wedi cael brechiad HPV, mae'n dal yn bwysig i chi fynd i gael prawf taeniad pan gewch chi'ch gwahodd.

Mae canser gwddf y groth yn fwy cyffredin mewn menywod sydd:

- yn dewis peidio â mynd am brawf taeniad ar ôl cael eu gwahodd
- wedi cael amryw o bartneriaid rhywiol (neu â phartner rhywiol sydd wedi cael partneriaid rhywiol eraill)
- yn dewis peidio â defnyddio condoms, neu'n
- ysmygu.

Sut gall menyw ei diogelu ei hun?

Nid yw canser cynnar yng ngwddf y groth bob amser yn achosi symptomau, felly mae mynd am brofion taeniad rheolaidd yn bwysig. Mae'n bwysig i chi fynd at eich meddyg hefyd os oes unrhyw rai o'r symptomau sy'n dilyn gennych chi, hyd yn oed os ydych chi wedi cael canlyniad normal i brawf taeniad.

- Rhedlif (*discharge*) anarferol o'r wain
- Gwaedu rhwng eich mislifoedd
- Gwaedu neu boen yn ystod neu ar ôl rhyw
- Gwaedu ar ôl i chi fynd trwy'r menopos

Prawf taeniad – **ewch i'w gael e.**

Am fwy o wybodaeth neu gyngor, ewch i'r gwefannau sy'n dilyn.

Sgrinio Serfigol Cymru
www.screeningservices.org/csw

Sgrinio Serfigol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
www.cancerscreening.nhs.uk

Tell Her
www.tellher.com

Jo's Trust
www.jotrust.co.uk

Gwybodaeth am Imiwneiddio
www.immunisation.nhs.uk/hpv

Ymchwil Canser y DU
www.cancerresearchuk.org

Curo Canser Gwddf y Groth
new.wales.gov.uk/beatingcervicalcancer/home

Cymraeg Clir®